# Byddwch yn SMART ar-lein!

## SAFF
Cadwch eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel. Os ydych yn sgwrsio neu'n postio ar-lein, peidiwch byth, er enghraifft, â rhoi eich enw llawn, eich cyfrineiriau neu eich cyfeiriad, hyd yn oed os yw pobl yn dweud mai eich ffrindiau ydynt.

## MEDDWL ETO
Mae cwrdd â phobl yr ydych yn cwrdd â nhw ar-lein yn beth peryglus iawn, hyd yn oed os ydynt yn ffrind i ffrind. Os bydd rhywun yr ydych wedi ei gwrdd ar-lein yn gofyn am gael cwrdd â chi, neu'n gofyn am luniau neu fideos ohonoch, dywedwch wrth oedolyn ar unwaith.

## AROS FUNUD
Meddyliwch yn ofalus cyn clicio ar unrhyw beth neu dderbyn unrhyw un ar-lein. Nid fyddwch fyth yn gwybod i le y gallwch gael eich arwain neu a yw'r ddolen yn cynnwys firysau. Os nad ydych yn gwybod pwy neu beth ydyw, gofynnwch i oedolyn, a dangoswch iddo yr hyn a gafodd ei anfon atoch.

## RHAID COFIO
Peidiwch ag ymddiried ym mhopeth yr ydych yn ei ddarllen ar-lein, nac yn yr hyn y mae pawb yn ei ddweud. Gall gwybodaeth fod wedi dyddio, neu gall fod yn anghywir neu heb fod yn hollol wir. Gallwch wirio a chymharu gwybodaeth ar wefannau eraill neu mewn llyfrau i weld os yw'r wybodaeth yn gywir.

## TEIMLO'N ANNIFYR
Dywedwch wrth oedolyn yr ydych yn ymddiried ynddo, er enghraifft rhiant, gwarcheidwad neu athro, os bydd rhywun neu rywbeth ar-lein yn gwneud i chi deimlo'n ofidus, yn bryderus neu'n ddryslyd. Mae yna lawer o bobl a fydd yn gallu eich helpu.

## BYDDWCH YN GAREDIG
Cofiwch, gallwch chi wneud y rhyngrwyd yn lle gwell os ydych chi bob amser yn garedig ac yn barchus pan fyddwch chi ar-lein. Trin eraill bob amser yn y ffordd rydych chi am gael eich trin.



Sbarc © 2020 Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Cedwir pob hawl.
Sbarc © 2020 Mid and West Wales Fire and Rescue Service. All rights Reserved.